

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 2 Rhif 6

Yn rhad ac am ddim

Medi 2021



Gerallt Gymro

Gerallt Gymro

Cafodd Gerallt Gymro ei eni yng Nghastell Maenorbŷr yn 1146, ei nain oedd Tywysoges Nest a hithau yn ferch i Rhys ap Tewdwr Mawr, brenin y Deheubarth. Roedd Nest yn hardd iawn ac felly yn boblogaidd iawn, os dach chi'n gwybod beth dw i'n awgrymu. Roedd hi'n briod â Gerallt Winsor a chafodd hi o leiaf naw o blant ond nad oedd Gerallt yn dad i bob un ohonyn nhw. Felly nain a thaid Gerallt oedd y Dywysoges Nest a Gerallt Winsor.

Mam Gerallt oedd Angharad a Gerallt de Bari oedd ei Dad. Yn amlwg roedd 'Gerallt' yn enw poblogaidd iawn yn y dyddiau yna. Peidiwch â phoeni os yw hyn yn gymhleth, y peth sydd yn bwysig yw roedd Gerallt yn dri chwarter Norman a chwarter Gymro. Ond roedd y chwarter hynny yn bwysig iawn iddo.

Gerallt oedd yr ifancach o deulu Angharad a Gerallt ac yn ôl y traddodiad adeg hynny bywyd Eglwysig oedd o'i flaen. Gan roedd Angharad o deulu mawr ei hun roedd ganddo lawer o

gefndryd, a chefndryd oedd yn siarad Cymraeg, wrth gwrs. Mae stori sy'n awgrymu tra oedd y lleill yn adeiladu cestyll tywod ar y traeth roedd Gerallt yn adeiladu eglwysi tywod.

Ei ewyrth oedd David Fitzgerald, Esgob Tŷ Ddewi ac roedd o'n addysgu Lladin i Gerallt. Roedd Lladin yn bwysig iawn yn y dyddiau yna achos roedd yr uchelwyr yn ei ddysgu ac, wrth gwrs roedd gwasanaethau'r Eglwys yn Lladin. Cyfleus iawn mewn gwirionedd, roedd o fel Esperanto cynnar. Wrth iddo gyrraedd 10 mlwydd oedd aeth o i Abaty Caerloyw i ddysgu rhesymu a dadlau'n glir.

Wel erbyn hyn roedd o wedi dysgu Lladin efo'i ewyrth ac wedi bod yn astudio yn Abaty Caerloyw - roedd hynny'n ddigon o addysg mae'n siŵr? Na, pan oedd o yng nghanol ei arddegau aeth i Brifysgol Paris tan iddo fod yn 28 oedd. Dychmygwch faint o ddyled oedd ganddo ar ôl yr holl fenthyciadau? O na, doedd dim y fath beth adeg hynny nag oedd!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

O'r diwedd roedd ei addysg drosodd a wnaeth o ddychwelid i Gymru i gael bywoliaeth eglwysi Santes Fair Dinbych y Pysgod, Santes Fair Angle a Sant Gwyndaf Llanwnda. A sut oedd o'n gallu cymryd y gwasanaethau yn yr eglwysi hynny pob dydd Sul? Gwnaeth o ddim wrth gwrs achos roedd curad yn edrych ar ôl pob un am ychydig iawn o gyflog. Doedd Gerallt ddim ond yn cael yr arian.

Ond roedd ganddo waith go iawn, roedd archesgob Caergaint wedi rhoi gofal moesoldeb y clerigwyr iddo. Roedd pethau wedi mynd braidd yn llac efo rhai clerigwyr yn byw efo merched, a hynny'n hollol agored, twt twt! Doedd ei ewyrth David ddim yn sant chwaith, roedd o yn gwerthu eiddo'r Eglwys er mwyn talu am ei blant llwyn a pherth, a'r mamau siŵr o fod.

Roedd Siryf Penfro yn gwrthod talu ei degwm ond doedd Gerallt ddim yn derbyn esgusodion. Cafodd o ei esgymuno efo cloch, llyfr a channwyll ac wedi hynny ei guro'n boenus. Os oeddech chi'n cael eich esgymuno yn y dyddiau yna doedd dim hawl i chi gadw unrhyw swydd, felly yn beth ddifrifol dros ben. Roedd pobl yn dechrau sylweddoli bod Gerallt yn hollol o ddifri am ei swydd.

Roedd Gerallt wrth ei fodd yn crwydro'r wlad ac yn sicr fydd llawer o bobl yn clywed amdano ac yn ei ofni. Un tro roedd o yn ardal Hafren a Gwy ac yn ymweld ag eglwys Llanbadarn Fawr. Doedd y bobl leol ddim yn fodlon o gwbl ac roedd rhaid iddo a'i gwmni gael lloches yn yr eglwys. Dyna ble oedden nhw yn gaeth, sut oedd dianc? Mi wnaeth un o'i ddynion ddianc trwy'r drws cefn i chwilio am ei gefnder Cadwallon ap Madog, (cofiwch roedd Gerallt yn un o deulu mawr, pwerus). Doth Cadwallon a'i fyddin dros y bryn a'i achub.

Yn amlwg doedd Gerallt ddim yn ofni neb. Un tro arall pan oedd eglwys Kerry newydd gael ei adeiladu ond heb ei gysegru clywodd Gerallt fod Esgob Sant Asaff ar y ffordd i gysegru'r eglwys ac, wrth wneud hynny, cael yr eglwys fel rhan o esgobaeth Sant Asaff. Doedd Gerallt ddim yn hapus o gwbl ac roedd ras i gyrraedd y lle, Esgob Sant Asaff yn carlamu i lawr o'r gogledd a Gerallt yn carlamu o'r de. O ddrwch blewyn Gerallt ennillodd a dyna le oedd y ddau wrth gât yr eglwys, Gerallt tu fewn a'r Esgob tu allan. Roedden nhw'n gweiddi at ei gilydd, yr esgob yn

gweiddi bod o'n uwch ei swydd na Gerallt a Gerallt yn hawlio'r eglwys achos fo oedd wedi cyrraedd yn gyntaf. Rhodd Gerallt y gorchymyn i ganu cloch yr eglwys er mwyn dechrau'r ddefod esgymuno, dyma'r llyfr a'r gannwyll yn dod allan a'r esgob yn dechrau poeni am ei swydd. Unwaith iddo glywed y gloch yn canu neidiodd ar ei geffyl a charlamodd i ffwrdd.

Wrth gwrs roedd Gerallt yn uchelgeisiol hefyd ac wrth iddo glywed bod Archddiacon Aberhonddu yn byw bywyd dedwydd efo ddynes roedd rhaid i'w ewyrth, esgob Tŷ Ddewi cael gwybod. Collodd yr Archddiacon ei swydd a phwy dach chi'n meddwl cafodd y swydd?


Wel Gerallt, wrth gwrs!

I barhau ...

Taith o gwmpas Ynys Dewi

gan Val Richards

Beth am ddod gyda fi ar daith cwch o gwmpas Ynys Dewi? Mae hi mor boeth heddiw ac mae'r ddinas yn brysur dros ben, llawn o dwristiaid sydd fel arfer yn mynd dramor ar wyliau. Gadewch i ni ddianc am ychydig i fwynhau'r heulwen tra bydd yn para.



Mae'r daith yn dechrau o fwthyn gwylliau darluniadwy yn eistedd ar y clogwyn uwchben harbwr Porth Clais. Bydd yn rhaid i ni gerdded i lawr llwybr yr arfordir sy'n serth ac yn garegog, yn ogystal â chadw i reolau pellter cymdeithasol. Diolch byth, nid yw'r llwybr mor llithrig ar ddiwrnod braf fel heddiw - ond byddwch yn ofalus!

Wrth i ni gyrraedd y jeti, gallwn ni weld y cwch yn aros amdanon ni ac mae'n rhaid i ni wisgo ein harneisiau diogelwch cyn i ni fynd arno. Peidiwch â phoeni, maen nhw'n gweithredu'n awtomatig os bydd angen. I ffwrdd â ni, allan o'r harbwr tuag at Ynys Dewi. Ffurfiad o greigiau enfawr yw'r ynys, dwy filltir o hyd ac

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

wedi'i leoli tua hanner milltir oddi ar arfordir penrhyn Tyddewi yn Sir Benfro.

Roedd Ynys Dewi yn fan pererindod amser maith yn ôl ond bellach gwarchodfa natur yw hi gyda dim ond un ffermdy lle mae'r ddau warden yn byw. Does neb yn cael cyfle i lanio rhag ofn cynhyrfu'r bywyd gwyllt, yn arbennig yn ystod tymor nythu'r adar. 'Sdim ots achos bod cymaint i weld o'r cwch.

Beth all fod yn well na hyn? Mae'r haul yn tywynnu a'r dŵr glas tywyll mor llonydd. Gallwn ni weld cyn belled â'r gorwel ac mae golygfeydd da o draethau, caeau a ffermdai anghysbell ar y tir mawr. Ond nid yw'r tywydd bob amser cystal ag y mae heddiw, wrth gwrs. Mae darn drwg-enwog o ddŵr o amgylch rhai o'r ynysoedd llai oherwydd llanw cryf ac mae hyd yn oed dynion bad achub wedi colli eu bywydau yma yn y gorffennol.

Wrth i ni agosáu at Ynys Dewi, nid nepell o fynyddfa ogof, mae morlo llwyd yn ymdrybaeddu yn y môr. Ydy e'n ceisio ein difyrru, tybed? Mae'n olygfa hyfryd yn erbyn cefndir o greigiau garw sy'n disgleirio'n wyrdd yn yr heulwen. Gallwn ni weld cryn dipyn o adar hefyd, gan gynnwys



llursod a gwylogod a llawer o rai eraill. Mae twristiaid wedi dod allan ar y cwch pleser gan obeithio cael cipolwg ar ddolffin. Yn sicr ni fyddan nhw'n siomedig heddiw.

Yn rhy fuan o lawer mae'n bryd i ni fynd yn ôl ond nid cyn cael cyfle i lywio'r cwch. Mae'n rhaid cymryd gofal i osgoi'r creigiau tanddwr, y potiau cimwch a'r pysgotwyr sy'n aros yn amyneddgar i ddal draenog y môr neu ddau i swper.

Yn ôl yn yr harbwr nawr ac mae yna bobl ifanc yn mwynhau eu hunain mewn caiacau neu'n plymio i'r dŵr a hefyd plant yn dal crancod tra

bod eu rhieni gwylio drostyn nhw. Nid yw'n ddim byd tebyg i'r hen ddyddiau pan oedd yn



borthladd diwydiannol prysur. Ni allwn ni ddychmygu chwaith yr harbwr yma tua thair blynedd yn ôl pan gafodd cymaint o gychod eu difetha gan storm. Mae'r lle hwn mor wahanol ar hyn o bryd.

Dyma ni, yn ôl ar ddaear gadarn. Roedd yn wibdaith mor ddiddorol, on'd oedd? Daw pob peth da i ben ond, cyn i chi fynd, hoffech chi gael hufen iâ wedi'i wneud yn lleol o'r ciosg yn y maes parcio?

Gobeithio eich bod yn falch bod chi wedi dod.

Dyma erthygl gyntaf Val. Roedd hi wedi cael ei hysbrydoli ar ôl gweld llawer o bethau diddorol ar y wibdaith. Dach chi'n gwybod sut mae hi, dach chi'n gweld pethau ac wedyn ar dân eisiau dweud wrth eich ffrindiau am y profiad. Ond a fydddech chi wedi bod yn ddigon dewr i roi'r stori ar bapur? Ond, pam lai? Beth sydd i'w golli? Efallai bydddech chi'n mwynhau gymaint bydddech chi eisiau ysgrifennu mwy. Mae ysgrifennu yn ffordd wych o greu hyder a byddaf i yna pob cam o'r ffordd i'ch helpu!

Dw i'n edrych ymlaen i glywed oddi wrthoch chi. Rob

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

gan Nesta Humphreys

Yn 2013 roedd dysgwr yn ardal Pen-y-bont, Pat Jones-Jenkins, yn meddwl byddai'n syniad da i sefydlu rhyw fath o Gymdeithas Hanes ar gyfer dysgwyr a siaradwyr Cymraeg. Ar ôl iddi hi siarad â dysgwyr eraill, roedd hi'n llwyddiannus yn cael digon o wirfoddolwyr i greu pwyllgor. Yn ogystal â chwpl o ddysgwyr, yn cynnwys fi, roedd

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Menter Bro Ogwr a chwpl o siaradwyr rhugl yn hapus i helpu'r prosiect.

Pan gwrddodd y pwyllgor am y tro cyntaf ro'n ni'n gallu siarad am sut i drefnu'r Gymdeithas a phenderfynon ni drefnu cwpl o sgysiauw ar ddiwedd 2013 i ddarganfod a fyddai'r syniad yn apelio at bobl. Yn ffodus, roedd y sgysiauw yn llwyddiannus. Felly, yn 2014, dechreuodd y Gymdeithas gyda rhaglen ar gyfer yr holl flwyddyn ac, ers hynny, mae'r Gymdeithas wedi mynd o nerth i nerth. Mae'r Gymdeithas wedi cael 25/30 aelod bob blwyddyn ac, ar gyfartal, mae 20 o bobl yn dod i'r digwyddiadau, cymysgedd o ddysgwyr a siaradwyr rhugl.

Bob blwyddyn rydyn ni wedi trefnu 6 sgws, 2 ymweliad â rhywle lleol, Taith yr Haf a Pharti Nadolig. Cyn y pandemig, cynhaliwyd y sgysiauw yng Nghlwb Criced Tondy, Pen-y-bont ac roedd ein cefnogwyr yn talu £12 y flwyddyn am aelodaeth neu £3 am un sesiwn sy'n ddigon i dalu am yr ystafell a'r siaradwyr gwadd.



Dyma rhai o'r grŵp ym Mharc Dinefwr ...



... a rhai yn edrych ar yr hen luniau ar y waliau yn Eglwys Llancarfan.

Dros y blynnyddoedd rydyn ni wedi cael siaradwyr gwadd fel Dr Elin Jones, Heini Gruffudd, Gwyn Griffiths, Athro Stuart Cole, Athro Madeleine Gray a llawer o siaradwyr eraill. Maen nhw wedi siarad am bynciau fel Y Siartwyr,

Erledigaeth, Sioni Winwns, Y Rheilfordd Great Western a'r Hen Groesau yn ardal Pen-y-bont.

Wrth gws, mae'r pandemig wedi newid pethau. Sut bynnag, rydyn ni wedi bod yn defnyddio Zoom bron bob mis ers mis Tachwedd 2020. Mae'r sgysiauw wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda 30 o bobl yn dod ar gyfartaledd. Er enghraifft, siaradodd Geraint Thomas am Owain Glyndŵr, Athro Madeleine Gray am Bererindodau a Cleif Harpwood am Dair Cân a Thri Lle.

Ar hyn o bryd rydyn ni'n parhau ar Zoom gyda'r sgysiauw canlynol:-

Nos Lun, 13 Medi am 7.30yh – “Calon Blwm” gan Cyril Jones

Nos Lun 11 Hydref am 7.30yh – “Cymru mewn 100 Gwrthrych” gan Andrew Green

Nos Lun 08 Tachwedd am 7.30yh – I Gadarnhau

Bydd ein Rhaglen 2022 ar gael yn fuan gyda sgysiauw ar Zoom ac ymweliadau yn lleol.

Os byddwch chi eisiau rhagor o fanylion neu eisiau dod i sgws ar Zoom, ewch i www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr <<http://www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr>> neu cysylltwch â fi trwy e bost isod. Bydd croeso cynnes i bawb.

Rydyn ni'n diweddarau ein gwefan ar hyn o bryd ond dyma'r ddolen.

<https://sites.google.com/site/hanesogwr/cymdeithas-hanes>

Nesta Humphreys

Pwyllgor Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

nestahumphreys@btinternet.com

Sylwadau gan y Golygydd

Mi ydach chi wedi darllen am ddysgwyr Southgate yn llwyddo i ddarganfod y drws i'r gymuned Gymraeg ac wedi cryfhau'r gymuned wrth wneud hynny. Mae'r dysgwyr wnaeth sefydlu'r Gymdeithas Hanes wedi mynd un cam ymhellach. Maen nhw wedi ychwanegu cymdeithas i'r gymuned ac wedi cadw'r Gymdeithas i fynd ers 2013!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Mae'n anodd credu mai'r unig esiamplau yng Nghymru yw'r rhain felly os dach chi'n gwybod am esiamplau eraill yn eich ardal leol - gadewch i mi wybod. Mae'n rhaid ymledu'r neges er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn gwybod sut mae dysgwyr eraill wedi cyrraedd eu cymunedau lleol. Bydd rhai efallai yn hoffi cerdded, rhai yn hoffi darllen, ysgrifennu, garddio, seiclo neu dynnu lluniau. Mae pob math o bosibiliadau a phob un yn ffordd o sicrhau nad yw dysgwyr yn colli cysylltiad â'r iaith Gymraeg. Gwneud yn siŵr bod croeso i'r Cymry Cymraeg hefyd ond bod y grŵp yn parhau fel un sydd yn cael ei redeg gan ddysgwyr ond efo cefnogaeth y Cymry. Mae angen pwysleisio bod gan ddysgwyr sgiliau arbennig, sgiliau bydd yn cryfhau ein cymunedau.

Bydd pob grŵp llwyddiannus yn cynrychioli sicrwydd i ddysgwyr y dyfodol gael cyfle i barhau i ddatblygu eu Cymraeg mewn ffordd naturiol o gymysgu efo cyn-ddysgwyr a'r Cymry Cymraeg. Nid yn unig hynny ond tybed faint o hen ddysgwyr yr ardal bydd yn ymuno ac ail gydio yn yr iaith?

Er mwyn cyrraedd y nod o 1,000,000 o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 mae'n rhaid i ni ddatblygu cymunedau cryfion. Mae'n amlwg i mi mai trwy sicrhau bod dysgwyr yn clywed am yr esiamplau yma bydd ein cymunedau'n cryfhau. Ar hyn o bryd mae llawer gormod ohonyn nhw'n fregus iawn a pheidiwch feddwl bod y rhai cryfion yn ddiogel chwaith.

A dyma fi, unwaith eto yn gofyn i'r Coleg Gymraeg Cenedlaethol anfon y neges at y dysgwyr, trwy'r tiwtoriaid, er mwyn sicrhau bod pob un sydd yn ei flwyddyn olaf yn cael yr ysbrydoliaeth.

Mae gormod o ddysgwyr yn mynd ar goll i'r iaith pob blwyddyn.

Wedi anghofio pen-blwydd?

Yn sydyn dach chi'n sylweddoli bod pen-blwydd eich chwaer yn agosáu ac, ar ôl chwilio ym mhob man does dim byd sy'n gwneud y tro. Dach chi mewn panig! Os cardiau Cymraeg dach chi angen beth am fynd yn syth at eu gwefan ardderchog nhw www.cardiaucymraeg.com. Mae cardiau yno ar gyfer bob achlysur ac maen nhw'n anhygoel o gyflym! **Cefnogwch y byd Gymraeg.**



WWW.CARDIAU-CYMRAEG.COM

A wnewch chi basio'r Wennol ymlaen os gwelwch yn dda!

Dw i eisiau cael mwy o bobl i'w ddarllen a mwy o bobl i ysgrifennu erthyglau. Beth amdanoch chi? Byddech chi'n hapus i ysgrifennu rhywbeth? Mae'n hawdd. Meddyliwch fod chi'n siarad efo ffrind ac yn sôn am eich gwyliau neu beth bynnag. Wedyn rhwch hynny ar bapur, bydda i'n gwneud yn siŵr bod popeth yn iawn felly, peidiwch â phoeni!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalen y Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Oes Rhaid?

“Oes rhaid gwisgo mwgwd yn y siop?” “Oes, ar hyn o bryd”.

“Oes rhaid gwisgo mwgwd yn yr ardd?” “Nag oes”.

“Oes rhaid mynd ag ymbarel heddiw?” “Oes, maen nhw'n addo glaw.”

“Oes rhaid i mi brynu petrol?” “Nag oes, mae digon o betrol yn y tanc.”

“Oes rhaid i mi fwyta pwdin reis?” “Nagoes ond does dim byd arall.”

Mwgwd - mask

Yn yr hydref

Mae hi'n hydref. Mae'r dail ar y coed yn newid lliw. Mae'r gwyrdd yn mynd yn frown ac yn disgyn i'r llawr. Mae'r temheredd yn gostwng. Maen rhaid gwisgo cot cynnes. A menig. Mae'n rhaid fod yn gynnes. Oes ganddoch chi het gwlan i roi ar eich pen?

Dach chi'n hoffi mynd allan yn yr hydref?

Temheredd - temperature

Gostwng - to drop

Het gwlan - wooly hat

Ffordd o Ddysgu

Blwyddyn 1 - Dw i'n dysgu Cymraeg. Dach chi'n dysgu hefyd?

Blwyddyn 2 - Ydw dw i'n dysgu hefyd. Mae llawer o eiriau yn yr iaith!

Blwyddyn 1 - Oes, dach chi'n mynd i'r dosbarth nos?

Blwyddyn 2 - Ydw dw i wedi bod yn dysgu am flwyddyn, sut mae pethau'n mynd?

Blwyddyn 1 - Mae'n anodd cofio geiriau.

Blwyddyn 2 - Ydi mae, ond mae'n haws unwaith dach chi'n defnyddio nhw.

Blwyddyn 1 - Ond dw i ddim yn ddigon da i gael sgwrs.

Blwyddyn 2 - Na, mae'n anodd cael sgwrs am y tro cyntaf ond beth am wrando ar Radio Cymru?

Blwyddyn 1 - Ond dw i ddim yn deall beth maen nhw'n dweud.

Blwyddyn 2 - Na, fydddech chi ddim ar y dechrau ond jyst gwrandwch, mae'n help i diwnio mewn i'r iaith. Darllenwch Y Wennol hefyd. Y mwyaf dach chi'n darllen y mwyaf dach chi'n dysgu!

Blwyddyn 1 - Iawn, diolch am eich cyngor. Mi wna i drio.

Cyngor - advice

Beth dach chi'n gwneud?

“Beth dach chi'n gwneud heno?” “Dyn ni'n mynd i Gaerdydd.”

“Beth sydd yn mynd ymlaen yna?” “Mae cyngerdd yn Neuadd Dewi Sant.”

“Mi fydd llawer o ganu yna.” “Bydd, a phawb yn chwifio baneri.”

“Baswn i'n hoffi mynd yna ond does dim un tocyn ar ôl”

“Cofiwch bydd un arall blwyddyn nesaf.”

“Gwnaf, mwynhewch y cyngerdd!”

Baner - flag

Remembering words and patterns that you have learned in class can be difficult at first but once you get used to seeing them for real then things get easier. People who go to France to learn the language will achieve nothing unless they immerse themselves in the language. Read as much as you can, not so that you understand the story but to just get used to seeing the words


Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Blaenau Ffestiniog

Mae'n werth mynd i Flaenau Ffestiniog!
Mae siop llawn llyfrau yna, rhai newydd
neu ail law. Llauer o Gymraeg i'w glywed,
felly llauer o gyfleoedd i'w siarad. Ardal ar-
bennig o dda i gerdded ynddi hefyd.

SIOP LYFRAU'R HEN BOST


Llyfrau Newydd ac Ail Law / New and Second Hand Books



45 Stryd Fawr
BLAENAU FFESTINIOG
Gwynedd
LL41 3AA

Ffôn/Tel: 01766 831802
Ebost/Email: henbost.blaenau@gmail.com

Ac os dach chi eisiau rywle i aros! Beth am ...



CABAN GWYLIAU HOLIDAY CABIN

Hen Gapel
Cwm Teigl
FFESTINIOG
Gwynedd
LL41 4RF

Ffôn/Tel: 01766 762243
Ebost/Email: elin.hengapel@gmail.com

Cyfarfod Arwr

gan Rob Lisle

Dyw hi ddim yn hawdd gwybod beth i'w ddweud wrth bobl enwog. Yn enwedig pan taw eich arwyr ydyn nhw. Er eich bod chi moyn dweud rhywbeth dwfn yn y foment fach sydd yna, mae'n debyg bydd rhywbeth twp yn dod mas.

Dim ond unwaith ces i'r profiad cyferbyniol. Digwyddodd e pan o'n i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers dwy flynedd ac yn straffaglu heb hyder yn y cyfleoedd prin i siarad y tu fas i'r dosbarth.

Roedd hi'n hwyr yn y prynhawn a dwedodd fy ngwraig 'you should wear something posh, we're off out'. Fy mhen-blwydd oedd hi ac roedd hi

wedi cynllunio i ni fynd allan heb i fi wybod dim byd.

Wrth i ni gyrraedd y gwesty o safon yn Arberth, o'n i'n amau a allwn i fwyta unrhyw beth o gwbl ar ôl cinio hwyr. A sut byddwn i'n cuddio'r fillet steak ym mhoced fy siaced heb dynnu sylw?

Serch hynny, anghofiais am bopeth fel hyn yn glou wrth i mi adnabod wyneb cyfarwydd yn dod i mewn i'r bar. Y chwaraewr rygbi mwyaf cyffrous erioed sef Shane Williams!

Ro'n i'n sefyll yna yn lletchwith wrth i fi feddwl beth yn y byd byddwn i'n ei ddweud wrtho fe pe byddai rhaid. Ar ôl sbel, daeth yr amser i fynd trwyddo i'r ystafell fwyta lle ddechreuodd pawb ffeindio eu cadeiriau. O'n i'n meddwl wrth i fi eu dilyn y byddai pob un yn awyddus i eistedd ar yr un bwrdd â Shane, a dringo ar draws ei gilydd i gael cyfle i siarad gyda fe. O'n i'n hapus iawn i aros yn amyneddgar tu ôl y dorf wrth iddyn nhw basio mas o'r bar. Fydd dim rhaid i fi ddweud unrhyw beth, meddyliais - grêt.

Unwaith tu fewn i'r stafell fawr ffurfiol roeddwn yn synnu doedd dim ond dwy gadair ar ôl - sef y ddwy bob ochr iddo. Edrychais ar fy ngwraig. Gwenodd hi nôl - 'well, sit down then', wrth fy ngwthio i gyfeiriad y gadair agosaf at Shane.

Sut yn y byd oedd y gadair yma yn rhydd? Â dalodd Siân arian ychwanegol i fi eistedd yna? Naddo, yn ôl hi.

'Evening', dwedais.

'Hi' dwedodd e yn dawel ac yn barchus. Bobl bach, roedd hi'n mynd i fod yn noson hir, meddyliais.

Edrychais i nôl at Siân ac o gwmpas y ford. Fe ddechreuodd sŵn cyllyll a ffyrac a sgysiau'n cychwyn.

Cyferbyn â Shane roedd cwpl hŷn smart. Sut o'n nhw mor hamddenol? Mor hawdd oedden nhw'n siarad gyda'n gwr gwadd. Gwenon nhw yn ystod sgws a oedd yn llifo'n naturiol. Mwy a mwy, o'n i'n teimlo'n fwy anesmwyth.

Hynny yw, tan i'r cwrs cyntaf gyrraedd. Roedd y 'gwaith celf ar blât' yn ddifyrrwch derbyniol, a phan aeth hi mewn llwnc, des i o hyd i fy nhafod.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

‘Ydych chi’n siarad lot mewn digwyddiadau fel hyn?’ dwedais yn sydyn heb feddwl o gwbl.

‘Nawr ac yn y man’ daeth yr ymateb. Mae rhaid e fod e’n deall, meddyliais.

‘Siarad Cymraeg ‘te?’ gofynnodd y cwpl o’r ochr arall.

‘Ydw’, dwedais. Ydw i? Do’n i ddim yn siŵr.

‘Ych chi wedi cyfarfod o’r blaen?’ Gofynnais i’r tri ohonyn nhw. O ble oedd y geiriau hyn yn dod?

Rywsut, o’n i’n nawr yn rhan o’r sgwrs – anhygoel! Edrychais lawr at fy mheint – tri chwarter gwag. Ai hynny oedd y rheswm nad o’n ni’n rhewi neu ddweud pethau ofnadwy o anaddas?

Wedyn, roedd egwyl fach yn y sgwrs. ‘Pa mor hir wyt ti ‘di bod yn dysgu Cymraeg?’ Gofynnodd World Player of the Year 2008.

‘Ti bron yn rhugl!’ dwedodd y fenyw yn gefnogol wrth chwerthin mewn ffordd gyfeillgar.

Troais o gwmpas yn cofio fod Siân yna o hyd. ‘Alright?’ Gofynnais yn eithaf euog. Gwenodd hi.

Do’n i ddim yn gallu credu'r sefyllfa. Nid yn unig o’n i’n siarad Cymraeg mas ‘yn y gwyllt’ am bron y tro cyntaf erioed, roedd un ohonyn nhw wedi bod yn arwr i fi ers blynnyddoedd. Roedd y peth i gyd fel math o freuddwyd.

Caeth y pwddin ei osod o’m blaen gan grwt mewn gwisg fel rhywun o Downton Abbey. Wel, hanner pwddin, hanner darn o gelf fodern oedd hi. A oedden ni wedi cael y prif gwrs yn barod? O’n i wedi bod rhy brysur yn siarad i sylwi.

Erbyn yr amser iddo fe sefyll i siarad â phawb, roedd y sgwrs wedi ymestyn am tua dwy awr.

Eisteddais yn ôl yn fy nghadair gyda balchder. Carreg filltir yw hyn, meddyliais. Teimlais lawn hyder. Roedd wastad ofn arna i gychwyn sgwrs â phobl wrth dreial defnyddio’r Gymraeg o’n i wedi dysgu. Dw i wedi bod yn gwneud dipyn o ymdrech a threulio oriau mawr yn gwrando ar Say Something in Welsh ac yn ddiweddar gan fynd i wersi. Ond pryd hynny, roedd hi bron yn amhosib i fi cael sgwrs hirach na brawddeg neu ddwy oherwydd hyder – rhwystredigaeth fawr.

Byddai pethau yn wahanol o hyn ymlaen dw i’n sicr. O’r diwedd roeddwn wedi llwyddo i siarad Cymraeg yn naturiol am noson gyfan.

Fel rhywun enwog a phrysur sy’n denu cymaint o sylw bawb, roedd Shane Williams mor gyfeillgar a chefnogol. Dw i yn wir yn ddiolchgar iddo - wnaeth e wahaniaeth go iawn i fi o ran hyder i siarad Cymraeg.

‘Nos da’ dwedon ni unwaith eto wrth iddo ddringo mewn i’w gar ar ein ffordd trwy’r maes parcio. Dw i ddim yn sicr os oedd maint y bwyd yn rhy fach, neu gaeth e ddim digon o amser i fwyta rhwng fy nghwestiynau i gyd, ond welon ni ei gar unwaith eto'r noson yna. Stopiodd e yn y garej ar y A40.

I brynu pasti siŵr o fod!

Mae Rob yn dod o deulu di-gymraeg ac wedi cael addysg Seisnig. Ar ôl gweithio am sbel fel pensaer yn Llundain mi wnaeth o a’i wraig symud yn ôl i Gymru ac, ar ôl anfon eu plant i ysgol Cymraeg mi wnaeth Rob penderfynu dysgu’r iaith hefyd

Roedd hynny bum mlynedd yn ôl ac mae Rob yn frwdfrydig am ddefnyddio ein hiaith a dysgu am ein hanes a’n diwylliant. Eleni roedd o’n un o’r pedwar yn y rownd derfynol o gystadleuaeth Ddysgur y Flwyddyn yn yr Eisteddfod - llongyfarchiadau iddo!

A rŵan mae wedi penderfynu cyfrannu at Y Wennol. Gobeithio cawn ni fwy o erthyglau yn y dyfodol. Diolch Rob

Hanes Y Gymraeg Yn Y Dechreuad

gan Martin Jones

Mewn rhifynnau blaenorol o’r Wennol mae Rob wedi ysgrifennu am ddyfodol y Gymraeg, ac mae hyn wedi gwneud i fi feddwl efallai byddai’n ddiddorol edrych yn ôl ar hanes yr iaith, hanes sy’n dyddio’n ôl filoedd o flynyddoedd.

Mae’r Gymraeg yn perthyn i’r teulu Celtaidd o ieithoedd ac erbyn hyn yr aelod mwyaf bywiog ac amlaf ei defnyddio o’r teulu ydy’r Gymraeg. Yn ei dro, mae’r teulu o ieithoedd Celtaidd yn tarddu o un o naw cangen yr iaith hynafol Indo-Ewropeaidd a ledaenodd o’i chartref (efallai yn Anatolia neu efallai yn stepdiroedd De Rwsia) ar hyd a lled Ewrop a thrwy lawer o rannau o dde Asia.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Mae cryn ddadl am darddiad y Celtiaid, ond does dim amheuaeth roedden nhw'n byw mewn ardaloedd eang o Ewrop a hefyd yn Asia Minor erbyn diwedd yr Oes Haearn. Mae enwau afonydd Rhein, Rhône, a Donwy, er enghraifft, yn tarddu o'r iaith Geltaidd. Rhwng tua 1,000 a 600 CC, dechreuodd pobl Geltaidd gyrraedd yr Ynysoedd Prydeinig a daethon nhw â'u crefydd, eu celf, eu sgiliau gwneud haearn - ac, wrth gwrs, eu hiaith - gyda nhw. Yn raddol, holltodd y famiaith yn ddau deulu newydd: Goedeleg yn Iwerddon (esblygodd Gwyddeleg, Gaeleg, a Manaweg ohoni) a Brythoneg ym Mhrydain (a esblygodd ymhen amser i mewn i Gymraeg, Cernyweg, Cymbrieg, a Llydaweg).

Gan i Frythoneg esblygu'n syth i mewn i Gymraeg, mae'n bosib dweud fod Y Gymraeg yn un o ddim ond tair iaith frodorol yr Ymerodraeth Orllewinol Rufeinig sy'n parhau i gael ei siarad heddiw ("Basque" a "Berber" ydy'r eraill).

Yn 43 OC, daeth y Rhufeiniaid i Brydain, ac am bron pedair canrif Lladin oedd iaith cyfraith a gweinyddiaeth – a hefyd iaith yr eglwys Gristnogol gynnar. Parhaodd mwyafrif llethol y boblogaeth i siarad Brythoneg, ond does dim syndod iddyn nhw fenthycu geiriau Lladin am bethau anghyfarwydd iddyn nhw ac am bethau cysylltiedig â'r ffydd Gristnogol. Er enghraifft, daeth y geiriau dilynol o Ladin:

pont - o'r Lladin "pons"

eglwys - o'r Lladin "ecclesia"

llyfr - o'r Lladin "liber"

cannwyll - o'r Lladin "candela"

ystafell - o'r Lladin "stabellum."

Ar ôl i'r Rhufeiniaid adael tua 400 OC, roedd cyfnod o ansicrwydd wrth i'r Eingl a'r Sacsoniaid ymosod o'r dwyrain, a'r Gwyddelig o'r gorllewin. O ran y Gwyddelig, roedden nhw wedi bod yn ymosod, a hyd yn oed yn sefydlu gwladfeydd yng Nghymru, ers y cyfnod Rhufeinig ei hun. Gadawon nhw eu hôl mewn enwau lleoedd fel Llŷn a Dinllaen, a hefyd mewn geiriau cyffredin fel "cerbyd" a "talcen".

Ar ddechrau'r pumed ganrif, roedd Brythoneg yn cael ei siarad o Gernyw yn y de i Gaeredin yn y gogledd. Ond wrth i'r Eingl a'r Sacsoniaid symud tua'r gorllewin, wnaeth yr ardaloedd Brythoneg eu hiaith wahanu oddi wrth ei gilydd,

ac esblygodd Brythoneg yn ieithoedd gwahanol: Cernyweg, Cymbreig, Llydaweg, a Chymraeg.

Digwyddodd yr esblygiad hwn yn gyflym iawn, ac mae'n bosib dweud bod y Gymraeg (neu o leiaf Y Gymraeg Cynnar) wedi dod i fodolaeth erbyn tua 550. Roedd y bobl oedd yn siarad yr iaith hon yn galw eu hunain yn Gymry, gair sy'n dod o'r Frythoneg "combrogēs" (cyd-wladwyr). Cawson nhw eu galw yn "Wealas" (sy'n golygu estroniaid neu bobl wedi'u Rhufeineiddio) gan eu cymdogion Eingl-sacsonaidd. Ac wrth gwrs, mae "Wealas" yn rhoi'r gair "Welsh" i ni.

Llwybr yr arfordir rhan 2.

gan Anne Lloyd

Efallai y byddech chi'n cofio ein taith ofnadwy ar hyd 'llwybr yr arfordir' o Dalacharn i Sanclêr. Wel, yn llai nag wythnos wedyn, ro'n ni'n ddewr unwaith eto, ac aethon ni ar ein hantur nesaf - Saundersfoot i Ddinbych-y-pysgod. A fyddai llwybr ac arfordir y tro yma tybed?




Roedd yr haul yn gwenu eto, a ffeindion ni le i barcio heb broblem. Ond ble oedd llwybr yr arfordir? Ar ôl gerdded o gwmpas yr harbwr, doedd dim arwydd i'w weld i ddangos y ffordd. Roedd rhaid i ni ofyn i rywun. Roedd y llanw allan, felly gallwn ni ddilyn y llwybr ar draws y traeth hyd at draeth y Glen. Lan y grisiau, ac wedyn i ffwrdd o'r môr ac i mewn i dipyn bach o goetir. O na, dim eto! Roedd hefyd grisiau serth lan y bryn. So fy mhengliniau'n hoff iawn o risiau serth. Ond nage, aeth y llwybr yn ôl tuag at y môr, a'r golygfeydd hyfryd dros y bae.

Am wahaniaeth! Roedd llwybr yr holl ffordd, a golygfeydd hyfryd o'r môr rhan fwyaf o'r amser. Roedd hyd yn oed signal ffôn symudol, a gallwn i wyllo diwedd gêm y Swans yn erbyn Millwall wrth i ni fwyta ein brechdanau (enillon nhw, rhag ofn bod chi wedi anghofio!). Cyrhaeddodd ni Ddinbych-y-pysgod heb unrhyw

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

drafferthion a gyda 'sgidiau glân. Roedd y traeth yn fendigedig, ond ro'n ni wedi colli "Wali" - roedd e wedi symud i rywle arall. Pan gyrhaeddodd ni adre, darllenais i Wales Online – a gweld fod "Wali" wedi dychwelyd, ac roedd e yna ar yr un pryd â ni! Siomedig iawn.

Doedd dim amser i gerdded 'nôl, felly dalion ni'r bws i Saundersfoot. Roedd cyri yn aros amdanon ni yn Abertawe! Ond cyn i ni adael, aethon ni 'nôl i'r harbwr er mwyn cael cip ar y traeth eto, ond roedd y tywod a'r ffordd i lwybr yr arfordir wedi diflannu o dan y môr. Gwelon ni hefyd y goeden Monterey Cypress ar graig ar y traeth, yr un mae rhai pobl yn moyn ei thorri i lawr. Roedd hi'n edrych yn ddigon saff, ond dim arbenigwr ydw i!




Roedd y daith gerdded lwyddiannus yma wedi magu ein hyder, felly mewn dipyn, cerddon ni o Borth Tywyn i Lanelli. Roedd hi'n ddiwrnod heulog eto (pwy sy'n dweud bod hi wastad yn bwrw glaw yng Nghymru?), a ro'n ni'n hapus iawn. Roedd y llwybr tarmac yn dda iawn. Roedd e'n fflat, heb risiau, a dim yn bell o'r môr ar unrhyw adeg. Ro'n i wrth fy modd! Gwelon ni hyd yn oed y pyst rygbi o'r hen Barc Strade, gyda'r sosbenni ar eu pennau, a cherflun Phil Bennet yn osgoi tacl gan chwaraewr Seland Newydd. Cofion melys o'r tîm rygbi anhygoel y saithdegau - dyw'r tîm erioed wedi bod cystal â'r un hwnnw ers hynny!

A naw milltir arall wedi'i gwblhau, gyda golygfeydd hyfryd, a llawer o lwybr ac arfordir diolch byth.

Nodyn. Dw i'n cofio'r goeden ar y graig ers pan o'n i yn fy arddegau ac roedd hi wedi bod yna am oes adeg hynny. Does dim byd yn bod efo hi heblaw bod hi'n rhwystro golwg y môr i rywun. Ond roedd yr hen goeden yna o leiaf canrif cyn i'r dyn gyrraedd a go brin nad oedd o wedi ei gweld cyn iddo sgwennu'r siec! Rob

Pos Val



Cliwiau

Ar Draws

- 1) Croes
- 2) Caniad
- 5) Lleandy
- 7) Tyb
- 8) Ystafell do
- 10) Diffyg
- 12) Tan
- 13) Difrod

I Lawr

- 1) Yn fuan
- 2) Sŵn
- 3) Cyfartal
- 4) Â nôd
- 6) Paent ewinedd
- 7) Llu arfog
- 9) Cywir
- 11) Dyfod

Cyngor Rob Kilâ

Mae rhai dywediadau yn dweud cyfrolau, dyma rai mae Rob wedi cyfiaethu i ni

Edrycha cyn i ti neidio

Look before you leap.

Mae taith fil o filltiroedd yn dechrau gydag un cam.

A journey of a thousand miles begins with a single step.

Nid yw cytundeb llafar werth y papur yr ysgrifennwyd arno.

A verbal contract is not worth the paper it is written on.

Paid byth dadlau gydag ynfyty, ni fydd neb yn gwybod pwy di pwy.

Never argue with an idiot, people may not know who is who.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

Teithiau Maes mis Medi 2021

Y De a'r Canolbarth

4 Medi Ardal Gellinudd

Cylchdaith tua 5 milltir a fydd yn canolbwyntio ar hanes diwydiannol yr ardal. Dwy ddringad gweddol serth, un ar y dechrau ac un yng nghanol y daith.

Man Cyfarfod Ger Swyddfa Dosbarthu'r Post ar Stad Ddiwydiannol Pontardawe (Old Foundry Road)

SA8 4EL SN726041

Elizabeth Jones 01792 864238

11 Medi Ystradmeurig/Swyddffynnon

Cylchdaith rhwng 6 a 7 milltir o Ystradmeurig dros y Drysgol i Swyddffynnon ac yn ôl ar hyd Lôn lacs. Peth dringo ac ychydig o dir gwlyb.

Man Cyfarfod Ar hen safle Stesion Strata wrth ymyl y B4340 rhwng Ystradmeurig a Phontrhydfendigaid (tua 1/2 milltir o Eglwys Ystradmeurig).

SY25 6AX (Cod Post agosaf) SN711672

John Williams 01970 617173

18 Medi Penwyllt hyd at Bant Mawr.

Cylchdaith tua 7 milltir, peth dringo ar lethr hen dramffordd i ddechrau. Ymlaen i Bant Mawr a Gwarchodfa Natur Ffynnon Ddu. Amrywiaeth o hanes lleol.

Man Cyfarfod Maes parcio hen Chwarel Penwyllt, trowch i'r dde (o gyfeiriad Abercraf) ar ôl gadael pentref Pen-y-cae, arwydd brown 'Gwarchodfa Natur' SA9 1GQ SN854157

Arwel Michael. 01639 844080

25 Medi Crug Hywel a'i hardal

Cylchdaith tua 5 milltir a fydd yn dringo 260 metr tuag at Langenni, wedyn i lawr at Grug Hywel ac yn ôl ar lan Afon Wysg.

Man Cyfarfod Culfan ger Mynedfa Gwersyll y Fyddin Cwrt-y-gollen sydd ar yr A40 i'r dde o Grug Hywel NP8 1TP (Cod Post agosaf) SO232168

Ade Bates 07875370840 01873810800

Gwynedd a Môn

4 Medi Llangoed Ynys Môn

Cylchdaith sy'n amrywiad ar daith Sant Seiriol a chastell Aberlleiniog. Llwybrau amaethyddol, ffyrdd cefn gwlad, traeth? un llethr cymedrol

Man Cyfarfod Maes parcio ar y dde i'r bont pen pellaf Llangoed. SH611796

Huw a Rhian Owen 01248722846 07557039343

11 Medi Taith yn y Goedwig

Manylion i ddilyn Rhydian Roberts

18 Medi Mallwyd - dilyn ôl troed Dr John Davies

(Cyfyngir i 20) Cylchdaith yn ardal y nofel 'Sgythia' yn cynnwys chwarel Minllyn, eglwys a rheithordy Mallwyd, a phontydd John Davies. Ffyrdd tawel a phrysur, llwybrau serth, posib mwdlyd a llithrig, camfeydd tua 5m

Man cyfarfod Maes parcio Lawnt y Plas, Dinas Mawddwy (ger y maes chware) SY20 9JA

SH858150

Arfon Hughes 07426914442

Cofrestru Hywel Madog 01766530224

25 Medi Helfa ffwng yng Ngoedwig Gwydir

(Cyfyngir i 20) Ymweld a nifer o lecynnau addawol am fadarch yn y goedwig rhwng Pont Gyfyng a Phentre Du. Llwybrau amaethyddol a trwy'r coed, ffyrdd tawel, darn o'r briffordd (palmant), allt gymhedrol

Man Cyfarfod Maes parcio Cae'n-y-Coed SH762576

Dominig Kervegant 01248602487

07719065218

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Y Gogledd Dwyrain

4 Medi Llanarmon yn Iâl Tua 5m

Cyfuniad o natur a hanes, peth dringo ysgafn.

Man Cyfarfod. Yn y pentre – dim maes parcio, parciwch yn gyfrifol ag ymgynull ger tafarn y Gigfran. **SJ191562**

Jo a Menna Hughes 01352 754098

11 Medi Manylion i ddilyn

18 Medi Manylion i ddilyn

25 Medi Manylion i ddilyn

Geirfa

Gerallt Gymro

Traddodiad - tradition

Cefnder - cousins

Uchelwyr - noblemen

Gwasanaethau - services

Mewn gwirionedd - in fact

Abaty Caerloyw - Gloucester Abbey

Rhesymu - to reason

dadlau'n glir - to argue clearly

Ardegau - teenage years

Dyled - debt

Bnthyciadau - borrowings

Dychwelid - to return

Bywoliaeth - a living

Curad - curate

Cyflog - salary

Moesoldeb y clergiwyr - the clergy's morals

Llac - slack

Eiddo'r Eglwys - the Church's possessions

Plant llwyn a pherth - illegitimate children

Siryff - sherriff

Degwm - tithe

Esgusodion - excuses

Esgymuno - to excommunicate

Difrifol dros ben - very serious

Lloches - sanctuary

Yn gaeth - imprisoned

Dianc - escape

Pwerus - powerful

Cysegru - to consecrate

Esgobaeth - diocese

Carlamu - to gallop

O ddrwch blewyn - by a hair's breadth

Yn uwch ei swydd - senior to

Hawlio - to claim

Gorchymun - to command

Uchelgeisiol - ambitious

Dedwydd - blessed

Taith Ynys Dewi

Tramor - abroad

Bwthyn gwyliau - holiday cottage

Darluniadwy - picturesque

Clogwyn - cliff

Serth - steep

Caregog - stony

Llithrig - slippery

Harneisiau diogelwch - safety harnesses

Gweithredu - to operate

Os bydd angen - if necessary

Ffurfiad - a formation

Fan pererindod - pilgrimage destination

Gwarchodfa natur - nature reserve

Cynhyrfu - to disturb

Gorwel - horizon

Anghysbell - remote

Drwg-enwog - bad reputation

Morlo llwyd - grey seal

Ymdrybaeddu - to wallow

Creigiau garw - rough rocks

Llurs - razorbill

Gwylog - guillemot

Llywio'r cwch - to steer the boat

Creigiau tanddwr - underwater rocks

Potiau cimwch - lobster pots

Dreanog y môr - sea bass

Plymio - to dive

Cranc - crab

Difetha - to damage

Daear gadarn - firm ground

Gwibdaith - a trip

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cymdeithas Hanes

Gwirfoddolwyr - volunteers
Pwyllgor - committee
Yn ogystal â - as well as
O nerth I nerth - from strength to strength
Ar gyfartal - on average
Digwyddiadau - events
Cymysgedd - mixture
Siaradwr gwadd - guest speaker
Sgyrsiau canlynol - the following talks
Diweddarau - to update

Cyfarfod Arwr

Arwr - hero
Dwfn - deep
Cyferbyniol - the opposite
Straffaglu - to struggle
Cyfle - opportunity
Amau - to doubt
Amyneddgar - to be patient
Torf - crowd
Ffurfiol - formal
Gwthio - to push
Cyllill a ffyrc - knives and forks
Hamddenol - leisurely
Llifo'n naturiol - to flow naturally
Anesmwyth - uneasy
Celf ar blât - art on a plate
Difyrrwch derbyniol - welcome amusement
Nawr ac yn y man - now and then
Anhygoel - unbelievable
Yn y gwyllt - in the wild
Breuddwyd - dream
Ymestyn - to stretch
Carreg filltir - milestone
Rhwystredigaeth - frustration
Cyfeillgar - friendly
Cefnogol - supportive

Hanes y Gymraeg

Rifynnau blaenorol - previous issues
Bywiog - lively
Amlaf ei defnuddio - more often used
Tarddu - to come from
Cangen - branch

Hynafol - ancient
Lledaenu - to spread
Cryn dadl - a bit of a debate
Oes haearn - iron age
Crefydd - faith
Holli - to split
Esblygu - to evolve
Mamiaith - the mother tongue
Brodorol - native
OC - AD (ôl Crist)
Gweinyddiaeth - administration
Benthyca - to borrow
Gwladfeydd - settlements
Estroniaid - strangers

Llwybr yr arfordir

Arwydd - a sign
Grisiau - stairs, steps
Coedtir - a wood
Penglinau - knees
Dychwelyd - to return

Pos Val

Atebion

Ar Draws

- 1) Traws
- 3) Cân
- 5) Cwfaint
- 7) Barn
- 8) Atig
- 10) Anafod
- 12) Nes
- 13) Niwed

I Lawr

- 1) Toc
- 2) Sain
- 3) Cytsta l
- 4) Nodog
- 6) Farnais
- 7) Byddin
- 9) lawn
- 11) Dod

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com